# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion : FIN(3)-12-10 : Dyddiad: Dydd Iau 1 Gorffennaf 2010

Gellir gweld y cyfarfod hwn ar Senedd TV ar: w

ww.senedd.tv/

**Amser: 09.30 - 12.10**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro (Cadeirydd)
Andrew Davies, Gorllewin Abertawe
Chris Franks, Canol De Cymru
Brian Gibbons, Aberafan
Irene James, Islwyn
Nick Ramsay, Sir Fynwy
Janet Ryder, Gogledd Cymru

### Staff y Pwyllgor

John Grimes, Clerc
Catherine Hunt, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lorraine Barrett a Kirsty Williams.  Roedd Irene James yn dirprwyo ar ran Lorraine Barrett.

### Eitem 2: Cyllideb Atodol 2010 -11 - y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

Papur: FIN(3)-12-10(p1)

2.1 Ymatebodd y Gweinidog a'r swyddogion i gwestiynau am y gyllideb atodol gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn iddi amlinellu'r meysydd y gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth amdanynt.

### Eitem 3: Goblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) - Tystiolaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (10.35 - 11.05)

Papur: FIN(3)-12-10(p2)

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor am Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru).

3.2 Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y tystion i ofyn iddynt amlinellu'r meysydd y gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth amdanynt.

### Eitem 4: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, er mwyn trafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor. 4.2 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

### Sesiwn breifat

### Eitem 5: Ystyried y dystiolaeth

a) Y Gyllideb Atodol b) Tystiolaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg 5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a glywodd mewn perthynas â'r Gyllideb Atodol a Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru).

### 6. Ymdrin â'r gyllideb ddrafft

6.1 Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r drafodaeth ar y gyllideb ddrafft tan ei gyfarfod nesaf.

### 7. Goblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru) - Adroddiad drafft

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft ar Fesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru).

**Papurau i'w nodi**

Goblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru) - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
FIN(3)-12-10 papur 3

Goblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog dros Dreftadaeth
FIN(3)-12-10 papur 4

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2010.
Papur: FIN(3)-10-10(min)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2010.
Papur: FIN(3)-11-10(min)

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**